WRECSAM 1986.... CARTREF LLWYD ANKSTWALKER...



TRA'N CRWYDRO DIFFEITHWCH CLWYD, MAE LLWYD YN GWELD HEN DDYN RHYFEDD EI OLWG....

OND MAE LLWYD YN SYLWEDDOLI NAD HEN DDYN BUDR YW HWN.... OND PROFFWYD... HEN BEN!

MAE HEN BEN YN DANGOS YR ARF I FRWYDRO YN ERBYN YR YMERODRAETH....



MAE SAUNDERS YN MYND Â LLWYD I CANOLFAN Y GWRTHRYFELWYR YN ABERYSTWYTH – CÛPS EISELY. YMYSG Y CRIW ROEDD FFRED SOLO, CHEWIE LEWIS DAFIS, R2 DML 2, C-ROC-PO, PRINCESS IWANA, AC ANGHARAD YR HURT.....



MAE'R CHWYLDRO YN ORMOD I RED LEADER BRANWEN....

MAE PETHAU YN EDRYCH YN WAEL GYDA RHAGRITHWYR YN YMUNO ÂR GELYN AC YN CAEL SWYDD YN Y CYFRYNGAU.....



MAE LLWYD YN MEDDWL FOD PETHAU AR BEN... OND MAE FFRED YN CYRRAEDD NÔL O'I DAITH SMYGLO LLEBR L PHREN YN SBAEN....

MAE DAFT YN DIFLANNU 'R GORWEL SYDD YN GADAEL I LLWYD ORFFEN Y GWAITH...



MAE LLWYD ÂR CRIW YN DATHLU NOL YN CŴPS EISELY.....



SGRIPT:- Y DR ARLUNIO:- © JB Hetfield '97

India - 50 heb fod allan

Ar y 15fed o Awst, 1997 bydd India yn dathlu hanner can mlynedd fel gwlad annibynnol. Yn barod mae rhai o bapurau newydd mwyaf rhyddfrydol Prydain yn dangos nad yw Imperialaeth a'r agwedd 'gwell na'i gilydd' oedd gan Imperialwyr fel Churchill hanner canrif yn ôl wedi marw. Yn barod maen nhw'n dadlau bod yr hanner can mlynedd o annibynniaeth wedi bod yn fethiant: bod problemau llythrennedd a thlodi yr India yn dal i fodoli, ac yn awgrymu, er nad ydyn nhw'n dweud hynny, bod pethau yn well o dan reolaeth Prydain.

Mae Seren Tan Gwmwl yn anghytuno. Rydym yn cytuno â Gandhi wnaeth ddweud ei bod yn well i India gael ei cham-lywodraethu o New Delhi, na chael ei rheibio o Lundain.

Mae hanes brwydr arwrol yr India am annibynniaeth yn gyfarwydd i'r rhan fwyaf o bobl: brwydrau Gandhi, Nehru a Phlaid y Gyngres dros hawliau sifil i ddechrau, ac, o ddechrau'r 1920'au ymlaen, dros annibynniaeth. Trwy hunan aberth a'r dull di drais dangosodd Gandhi a'i dilynwyr i'r byd bod modd herio holl rym yr Ymerodraeth Brydeinig heb ddefnyddio trais. Trwy weithredu, a derbyn y cyfrifoldeb dros y gweithredu, llwyddodd Mohandas K a'i ddilynwyr i ennill annibynniaeth i'w gwlad.

Hwyl fawr... honky

Wrth i fysedd y cloc yn New Delhi symud yn araf at hanner nos ar Awst 15fed, 1947, dechreuodd Nehru draddodi un o'r areithiau mwyaf mewn hanes modern. Mae llawer o'r araith *'tryst with destiny'* erbyn hyn yn gyfarwydd i bobl.

'Flynyddoedd maith yn ôl gwnaed oed rhyngom ni a'n tynged, ac mae'r amser wedi dod i ni gadw at ein haddewid. Pan fydd y cloc yn taro hanner nos heno, a'r byd yn cysgu, bydd India yn deffro i fywyd a rhyddid. Mae adegau yn dod, sydd ddim yn digwydd yn aml mewn hanes, pan fyddwn yn camu o'r hen i'r newydd: pan fydd oes yn darfod, a phan fydd enaid cenedl sydd wedi cael ei gwasgu'n rhy hir yn cael y cyfle i fynegi ei hun.'

Dyw pethau ddim wedi bod yn hawdd yn India: dyw llywodraethau'r wlad ddim wedi gwasanaethu eu pobl fel y dylien nhw - ond mae hyn yn wir am bob gwlad, nid dim ond yr India.

Mae'n rhaid edrych ar y problemau oedd yn wynebu'r India yn 1947 cyn medru pwyso a mesur pa mor llwyddiannus fu'r Indiaid wrth geisio eu datrys. Cachu mas wnaeth llywodraeth Prydain yn y pen draw, a rhannu'r wlad yn ddwy (neu'n dair). Roedd y mwyafrif o'r wlad yn cael ei galw'n India - ble roedd mwyafrif Hindwaidd. Roedd dau ddarn sylweddol o dir yn y gogledd serch hynny, yn cael eu galw'n Orllewin a Dwyrain Pakistan - dyma ble roedd mwyafrif Moslemaidd. Roedd India i fod yn un wlad; a Phakistan yn wlad arall, annibynnol.

Roedd hynny'n creu problemau yn syth. Arweiniodd polisi Prydain o rannu'r India at y symudiad mwyaf mewn poblogaeth yn hanes modern y byd. Mudodd Moslemiaid i Bakistan, a Hindwaid i'r India. Yn y symud gwelwyd cymdogion o grefyddau gwahanol yn ymosod ar, a lladd ei gilydd. Roedd rhai Indiaid yn credu ei bod yn well i ladd eu teuluoedd na gadael iddyn nhw aros, neu fyd yn oed fynd drwy'r symud. Polisi Prydain wnaeth arwain at i dros filiwn o bobl gael eu lladd pan rannwyd y wlad yn 1947. Ateb Prydain i unrhyw broblem yw rhannu gwledydd - yr Iwerddon, Cyprus, India etc.

Roedd gan yr India boblogaeth o dros 400 miliwn yn 1947. Doedd y wlad ddim yn gallu cynnal ei hunan o ran bwyd, ac roedd newyn yn gyffredin. Roedd 85 % o blant y wlad yn gadael ysgol yn 11 oed, ac roedd y boblogaeth yn anllythrennog. Doedd gan India, oherwydd cam-lywodraethu Prydain, ddim traddodiad o ddemocratiaeth. Yn yr etholiad cyffredinol cyntaf, roedd papurau balot yr India yn defnyddio symbolau i gynrychioli pleidiau i'w wneud yn haws i'r werin bleidleisio. Yn ogystal â'r problemau hyn, roedd anghyfiawnder cymdeithasol yn gyffredin, a'r system caste yn dal yn gryf a dylanwadol. hefyd roedd traddodiad o lywodraeth llwgr yn yr India, gydag arian yn ennill ffafrau. Doedd hon ddim yn setyllfa ddelfrydol i Nehru, fel Prif Weinidog cyntaf India, etifeddu wrth ei feistri / gormeswyr Prydeinig.